**PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL**

**Dyddiad:** Dydd Iau 11 Tachwedd 1999

**Amser:** 9.30am

**Lleoliad:** i'w gadarnhau

## ADRODDIAD Y CADEIRYDD

### Archwiliad

Mae cynnydd yr archwiliad o gydraddoldeb a gynhelir gan swyddogion yn parhau a bydd adroddiad llawn o'r canfyddiadau ar gael yn y Flwyddyn Newydd.

### Ymddygiad yn y Cynulliad

Fel a drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf, mae darnau o adroddiad Grp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol ar y Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud ag ymddygiad yn cael eu dosbarthu ar gyfer trafodaeth.

### Ymchwiliad Stephen Lawrence/Argymhellion Adroddiad Macpherson

Yn dilyn y cyflwyniad ar Adroddiad Macpherson yn ystod ein cyfarfod diwethaf, yr wyf wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd dros Addysg a Phlant er mwyn trafod yr argymhellion sy'n ymwneud ag ysgolion. Amgaeaf gopi o'r llythyr er gwybodaeth. Mae swyddogion yn paratoi cynllun gweithredu ar gyfer ymgynghori â gweithgor neu Aelodau Pwyllgor yn y dyfodol agos.

### Cyfarfodydd

Yr wyf yn cyfarfod â chynrychiolwyr o Gyngres Undebau Llafur Cymru i drafod nifer o faterion ar ôl cyfarfod y Pwyllgor ar 11 Tachwedd a Chyngor Ffoaduriaid Cymru ar 25 Tachwedd i drafod goblygiadau'r Mesur Mewnfudo a Lloches ar Gymru.

### Holiadur gofal plant

Anfonwyd holiadur at bob Aelod Cynulliad a'u staff personol ynghylch darpariaeth gofal plant a

oedd i'w ddychwelyd erbyn 17 Medi 1999. Ar y dyddiad hwnnw, yr oedd y canlyniadau fel a ganlyn:

Aelodau Cynulliad

- 34 ymateb
- 33 heb ofynion am ofal plant
- Dim ond ar un Aelod Cynulliad yr oedd angen darpariaeth gofal plant ond bodlonir yr angen hwnnw ar hyn o bryd drwy gytundeb preifat.

Staff neu Aelodau Cynulliad

- 27 ymateb
- 26 eisoes â threfniant/heb angen gofal plant
- Dim ond ar un aelod staff y byddai angen cyfleusterau gofal plant o 'bosibl' a hynny'n achlysurol petai'r gofalwr ar wyliau.

Nid oes unrhyw holiaduron pellach wedi'u llenwi gan Aelodau Cynulliad neu eu staff personol wedi dod i law ers y dyddiad cau.

Mae goblygiadau'r ymateb hwn yn cael eu harchwilio mewn perthynas â sylwadau ar anghenion yn y dyfodol.

**Materion eraill**

Mae'r adroddiad ar sefyllfa gyfreithiol y Pwyllgor ynghylch Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad wedi'i ohirio nes y ceir trafodaeth gyda Swyddog Cydymffurfedd y Cynulliad a Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol.

Yr wyf yn gwneud ymchwil i gynnig y dylai Ysgrifenyddion ac Aelodau'r Cynulliad sy'n cymryd rhan mewn cyfweliadau ar gyfer penodiadau cyhoeddus gael hyfforddiant mewn cyfleoedd cyfartal. Hwyrach mai dyma'r man cychwyn ar gyfer papur ar ymagwedd y Pwyllgor tuag at gydraddoldeb a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad.

Mae'r Comisiwn Cyfle Cyfartal i benodi Comisiynydd newydd i Gymru o Mehefin 2000 ymlaen. Daethpwyd i gytundeb gyda'r Adran Addysg a Chyflogaeth fod y swydd hon i'w hail-hysbysebu fel y gellir gwneud asesiadau llawnach o'r ymgeiswyr o ran eu cyfranogiad gyda materion cydraddoldeb a'u cynlluniau ar gyfer mater felly yng Nghymru.

Yr wyf wedi annerch sawl cynhadledd sy'n ymdrin â materion cydraddoldeb yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf:

- Cynhadledd Flynyddol Anabledd Cymru
- Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol MIND Bro Morgannwg
- Cynhadledd Flynyddol Cymdeithas Genedlaethol Sgitsoffrenia
- Cynhadledd Nyrsio Anableddau Dysgu ar hyrwyddo arferion cyraeddadwy, effeithiol a chynhwysol i gynorthwyo’r rheiny sydd ag anableddau dysgu
- Cynhadledd Adroddiad Gweledigaeth Ysgyriog Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion
- Ffair a Thrafodaeth Cyswllt Iechyd Meddwl Dyfed Powys - lansio Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl.

Deuthum â’r drafodaeth ar Iechyd a Chynhwysiant Cymdeithasol i ben yn y cyfarfod llawn ar 2 Tachwedd a bûm yng Nghinio Cymdeithas Proffesiynolion Mwslim.